

**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU IACHACH
a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor - Penmorfa ddydd Dydd Iau, 9 Chwefror 2023**

PRESENNOL: Y Cynghorydd Caryl Roberts (Cadeirydd), y Cynghorwyr Ceris Jones (Is-gadeirydd), Amanda Edwards, Elaine Evans, Eryl Evans, Keith Evans, Wyn Evans, Gwyn James, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan, John Roberts, Mark Strong a Carl Worrall. Cynghorydd Amanda Edwards, Cynghorydd Eryl Evans, Cynghorydd Keith Evans, Cynghorydd Wyn Evans, Cynghorydd Gwyn James, Cynghorydd Ceris Jones (Is-Gadeirydd) a/ac Cynghorydd Ann Bowen Morgan

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Euros Davies, Elizabeth Evans, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans, Hugh Hughes a Gareth Lloyd.

SWYDDOGION YN BRESENNOL: Eifion Evans, Prif Weithredwr; Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol; James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol; Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael; Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Gwasanaethau Democrataidd; Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cymorth Cynnar; Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Gofal; Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cynnal; Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol - Cyllid Craidd; Kirsty Dawson, Cyfrifydd Gwasanaeth; Ann James, Cyfrifydd Cynorthwyol; Carys Fowles, Cyfrifydd Cynorthwyol; Veronica Evans, Cyfrifydd Cynorthwyol; Carwen Evans, Rheolwr Corfforaethol - Diogelu'r Cyhoedd; Anne-Louise Davies, Safonau Masnach a Rheolwr Trwyddedu; Carwyn Young, Rheolwr Corfforaethol - Canolfannau Lles; Wendy Cushley, Swyddog Datrysiadau Busnes; Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Democrataidd; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(9.30 am - 12.25 pm)

1 Ymddiheuriadau

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Datganodd y Cynghorwyr Gwyn James, Wyn Evans, Eryl Evans, Catrin M S Davies a Bryan Davies fuddiant personol o dan yr eitem agenda Cynigion o ran Arbedion i Gyllideb 2023/24, Polisi Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (elfen Ddiogelu'r Cyhoedd yn unig).

3 Adroddiad ar y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2023/24

Amlinellodd y Cynghorydd Caryl Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor, weithdrefn y cyfarfod a chroesawodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cyllid a Chaffael, Aelodau'r Pwyllgor, gweddill Aelodau'r Cabinet, yr Aelodau nad ydynt yn perthyn i Bwyllgor a Swyddogion i'r cyfarfod.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, yr adroddiad ar gyllideb ddrafft 2023/2024 gan gynnwys rhaglen gyfalaf amlflwyddyn wedi'i diweddarau gan nodi ei fod yn seiliedig ar setliad dros dro Llywodraeth Cymru, a bod setliad terfynol Llywodraeth Cymru i gael ei gyhoeddi ar 28 Chwefror 2023.

Dywedodd yr Arweinydd wrth Aelodau'r Pwyllgor y croesawir y cynnydd uwch na'r disgwyl o 8.1% (ar sail ariannol) yn y setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023/2024. Dylai hyn sicrhau y gellir diogelu gwasanaethau i breswylwyr Ceredigion cymaint ag sy'n bosibl ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/2024 er y cydnabyddir bod hon yn Gyllideb eithriadol o heriol o hyd. Mae'r pwyntiau allweddol sy'n deillio o'r adroddiad fel a ganlyn:

- Mae'r pwysau o ran costau a wynebir gan y Cyngor yn dod i gyfanswm na welwyd ei debyg o £22m, sydd gyfwerth â ffactor chwyddiant penodol i Geredigion o fwy na 13%. Mae hyn yn cymharu â chwyddiant cyffredinol o 10.5% (ffigwr CPI Rhagfyr 2022). Mae angen dod o hyd i ddiffyg o £12m yn y gyllideb felly drwy gyfuniad o ystyriaethau o ran Arbedion Cyllidebol a chynnydd yn y Dreth Gyngor.
- Dywedodd nad oedd y meysydd lle gwelir pwysau o ran costau yn gyffredinol yn unigryw i Geredigion. Mae themâu'n dod i'r amlwg yn gyson sy'n debyg i'r rhai y cyfeirir atynt yn y wasg yn genedlaethol sy'n effeithio ar ystod o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat yn ogystal ag ar sefyllfa ariannol teuluoedd unigol. Maent yn amrywio o gostau ynni a thanwydd i ddyfarniadau cyflog staff uwch na'r rhagamcanion, i gontractau â chymalau sy'n gysylltiedig â chwyddiant.
- Mae cynnydd arfaethedig ar ei ardoll gan Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd sydd ar lefel na welwyd ei thebyg o'r blaen. Mae cynnydd arfaethedig o 13% yn ei Gyllideb yn arwain yn ei dro at bwysau mawr o ran costau, mewn termau cymharol, ar gyllideb y Cyngor ei hun.
- Mae'r gofynion ar gyllidebau sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol yn dal i gynyddu, ac mae hefyd angen cyfeirio mwy nag £1.7m o arian yn y Setliad Dros Dro (1.5% o'r cynnydd o 8.1%) i wasanaethau a gomisiynir yn allanol yng Ngheredigion er sicrhau bod gweithwyr Gofal Cymdeithasol

cofrestredig yn dal i gael eu talu ar y Cyflog Byw Real, o leiaf (sydd wedi codi o £9.90 i £10.90 yr awr - cynnydd o 10.1%).

- Ar waethaf heriau gweithredol ar adegau mewn rhai gwasanaethau, mae Cyngor Sir Ceredigion yn dal i ddarparu gwasanaeth o safon a gaiff ei gydnabod gan reoleiddwyr allanol. Mae Archwilio Cymru yn asesu bod y Cyngor yn parhau yn sefydlog yn ariannol, er yn cydnabod bod heriau ariannol yn ei wynebu gan greu risg ariannol parhaus nad yw'n unigryw i Geredigion.
- Mae lefel bresennol Band D y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/2023 yng Ngheredigion (o ran pob cydran) yn £1,777.27 sy'n cyd-fynd â chyfartaledd Band D y Dreth Gyngor yng Nghymru ar £1,777.18. Mae lefelau cyfartalog y Dreth Gyngor yng Nghymru hefyd dipyn yn is na'r cyfartaledd cyfwerth o £2,034 ar gyfer 2022/2023 yn Awdurdodau Unedol Lloegr. Mae elfen y Cyngor Sir o Fand D y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/2023 yn £1,447.90 ar hyn o bryd.
- Dywedodd yr Arweinydd ei fod ef a'r Cabinet, fel y mae pob Cynghorydd, yn ymwybodol iawn o effaith Costau Byw ar gyllid personol teuluoedd. Cynigir bod cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2023/2024 yn cael ei gadw islaw'r gyfradd chwyddiant bresennol a'i gyfyngu i ddim mwy na £10.02 ychwanegol y mis ar gyfer elfen y Cyngor Sir.
- Yr opsiwn a ffeirir gan yr Arweinydd a'r Cabinet o ran codi'r Dreth Gyngor yw cynnydd arfaethedig o 7.3% yn y Dreth Gyngor, sy'n cynnwys elfen o 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn ardoll yr Awdurdod Tân ac sydd gyfwerth ag £8.81 y mis ychwanegol ar gyfer elfen y Cyngor Sir.

Pwysleisiodd yr Arweinydd bod amserau anodd a heriol i ddod - gyda chynnydd cyfartalog dangosol o ddim ond +3.1% yn Setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/2025. Rhoddir sylw i faint yr her maes o law wrth gyflwyno Strategaeth Ariannol y Tymor Canolig wedi'i diweddarau. Un o egwyddorion arweiniol cychwynnol y weinyddiaeth wleidyddol newydd oedd (cyn belled ag yr oedd yn bosibl) osgoi toriadau yn narpariaeth Gwasanaethau, lleihau Dileu Swyddi a pheidio â mynd ar drywydd cwtogi fesul tipyn a pharhau i arfer dull corfforaethol a thrawsnewidiol o fynd i'r afael ag arbedion yn y tymor canolig.

O ystyried maint yr her ariannol, mae terfyn ar yr hyn y gellir ei gyflawni'n llawn yng nghyswllt yr holl elfennau drwy'r dull hwn ac, yn achos Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion, bydd gofyn i Ysgolion unigol wneud penderfyniadau rhagweithiol wrth i lefel eu Mantolen Ysgol a'r arian grant sydd ar gael leihau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cyllid a Chaffael, at y canlyniadau allweddol ar gyfer Ceredigion o Setliad Dros Dro 23/24 a nodir ar dudalen 3 o 42 o'r adroddiad gan nodi bod Cyllid Allanol Cyfun Llywodraeth Cymru a ddyrannwyd i Geredigion yn £129.050m ar gyfer 2023/24 o gymharu â £119.419m ar gyfer 2022/23. Mae hwn yn godiad ariannol o £9.6m (8.1%) ac mae Ceredigion yn y 9^{fed} safle.

Cyfeiriodd hefyd at Ardoll yr Awdurdod Tân a nododd, yn dilyn deialog gydag Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, y byddai'r swm perthnasol ar gyfer Ceredigion yn godiad o £519k dan ei Opsiwn Cyllideb o 13% sydd gyfwerth â chynnydd o 1.3% yn y Dreth Gyngor ar eiddo Band D. Yn ogystal, mae grant sy'n gysylltiedig â Tân o £143k i'w drosglwyddo i Setliad Terfynol Llywodraeth Cymru ac ymgorfforir y swm hwn, felly, i'r gwaith cyfrifo ar gyfer y Gyllideb, a bydd gofyn ei drosglwyddo i bennawd cyllideb yr Ardoll Tân er mwyn sicrhau bod yr elfen hon yn parhau i fod yn niwtral o ran cost. Mae'n siomedig bod y newid hwn yn cael ei wneud yn hwyr yn ystod proses y Gyllideb, heb unrhyw ymgynghori ymlaen llaw.

Mae canlyniad Setliad Ceredigion yn adlewyrchu ystod o ffactorau, ond y prif sbardun yw'r lefel gyffredinol o gyllid ychwanegol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Setliad. Mae ffactorau perthnasol eraill i'w nodi yn ymwneud â newidiadau yn y data ar Boblogaeth sy'n cyfrif am gynnydd o £54k a newidiadau yn y data ar Nifer Disgyblion sy'n cyfrif am ostyngiad o £70k.

Dywedodd y Cynghorydd Davies y gallai'r enillion o ran Poblogaeth fod wedi bod yn uwch (tua £350k) gan fod Cyfrifiad 2021 wedi cofnodi poblogaeth Ceredigion yn 71,468, tra bo'r set ddata ar boblogaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer Setliad 2023/2024 yn gyfartaledd cyfun o ddata ar boblogaeth Cyfrifiad 2021 a'r amcanestyniadau poblogaeth ar sail 2018 ar gyfer 2023, sydd yn 71,188. Yn ychwanegol at hyn, mae o leiaf 2 o'r Setliadau blaenorol (2021/2022 a 2022/2023) wedi defnyddio data ar boblogaeth wedi'i dan-ddatgan.

O ran nifer disgyblion, mae'r nifer yn y Meithrin a Chynradd wedi gostwng 2.7% i 4,951, tra bo'r nifer yn yr Uwchradd (blynyddoedd 7-11) wedi cynyddu 2.5% i 3,599. Mae hyn yn adlewyrchu tuedd genedlaethol o ran nifer y disgyblion Uwchradd yn cynyddu a nifer y disgyblion Meithrin a Chynradd yn gostwng, wrth gymharu data a ddefnyddiwyd ar gyfer Setliadau 2022/2023 a 2023/2024.

Cafodd £70m ledled Cymru ei gynnwys yn y Setliad er mwyn cael parhad yn ymrwymiad Llywodraeth Cymru er sicrhau bod Gweithwyr Gofal Cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru yn cael eu talu ar lefel Costau Byw Real, o leiaf, sydd yn awr yn codi i £10.90 yr awr.

Darparodd Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyllid a Chaffael, ddiweddiariad byr ar y sefyllfa bresennol ac yn arbennig ar bwysau costau yr Awdurdod. Gwnaed gwaith iteru manwl i nodi ac asesu'r pwysau costau anochel a wynebir gan bob Gwasanaeth, yn ogystal â'r agweddau y'u

hystyrir yn eitemau corfforaethol. Mae'r gwaith hwn wedi nodi tua £22m o bwysau costau sydd gyfwerth â 13.4% o Gyllideb 2022/2023. Mae'r lefel hon o bwysau o ran costau yn eithriadol a thu hwnt i'r £13m a welwyd yng nghyllideb 2022/2023. Cyn COVID a'r lefelau chwyddiant uchel presennol yn economi'r DU, roedd pwysau costau yn nodweddiadol tua £8m a thua 6% o'r gyllideb net. Aeth yn ei flaen i roi trosolwg o'r Pwysau o ran Costau sy'n effeithio ar bob gwasanaeth yn ogystal â'r eitemau a gaiff eu trin yn rhai Corfforaethol eu natur a'r arbedion yng nghyfradd Cyfraniadau Cronfa Bensiwn Gweithwyr sy'n fanteisiol i bob Gwasanaeth.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet priodol y wybodaeth a oedd yn berthnasol i'w Faes Gwasanaeth.

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor y Pwysau o ran y Costau ar y meysydd gwasanaeth hynny o dan gylch gwaith y Pwyllgor, sef:

-
- Porth Cynnal;
- Porth Gofal;
- Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (elfen Ddiogelu'r Cyhoedd yn unig); a
- Porth Cymorth Cynnar.

ac;

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor y Taliadau a'r Ffioedd arfaethedig o dan gylch gwaith y Pwyllgor yn Atodiad C, Atodiad 1, tudalennau 1 i 15 o 57 ym mhapurau'r Agenda.

Yna, rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau ac fe'u hatebwyd yn eu tro gan yr Arweinydd, yr Aelod Cabinet neu'r Swyddog perthnasol. Mae'r prif bwyntiau a gododd fel a ganlyn:

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch faint o arian hyd yma (gan gynnwys yr hyn a gynigir yn y gyllideb) a ddyrannwyd i roi hwb i'r Gwasanaethau Porth. Cadarnhawyd bod y wybodaeth ar gael ar dudalen 2, Atodiad 3, Atodiad A.
- Cadarnhawyd, mewn ymateb i gwestiwn ynghylch nifer a chost cysylltiedig staff asiantaeth sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion, bod y wybodaeth hon yn fasnachol sensitif a gellid ei hychwanegu at Flaenraglen Waith y Pwyllgor i'w hystyried ymhellach, gan gynnwys y camau sy'n cael eu cymryd i recriwtio staff.
- Cadarnhawyd, mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a oedd digon o gyllid yn cael ei ddyrannu i'r gwasanaethau Porth, bod perfformiad presennol y gwasanaethau yn awgrymu bod hynny'n wir. Cydnabyddwyd, fodd bynnag, y bydd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau, cynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio a mwy o dlodi yn y Sir yn rhoi pwysau cynyddol ar y gwasanaethau hyn er y rhoddwyd sicrwydd bod cyllidebau gwasanaethau Porth yn cael eu monitro'n agos drwy gydol y flwyddyn.

- Codwyd cwestiwn ynghylch lleoliadau y tu allan i'r sir a'r cynlluniau sydd ar waith i sicrhau bod lleoliadau ar gael i blant o fewn y sir. Amlinellodd y Cynghorydd Alun Williams y manteision o sicrhau, lle'n bosibl, y gall plant aros yn eu cymunedau gyda'u ffrindiau ac ati. Nodwyd hefyd yr arbedion ariannol ar gyfer y model hwn.
- Roedd yr Aelodau'n bryderus o wybod y bydd dau gynllun cyllid grant yn dod i ben a fydd yn cael effaith ar y Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd. Yn ogystal, codwyd pryder ynghylch colli cyllid ar gyfer Cydlynedd Llesiant ac Adnoddau Naturiol rhan-amser am fod y cynllun wedi'i gynllunio i ddod i ben cyn bo hir.
- Cytunwyd y rhoddir ystyriaeth i'r adnoddau a ddyrennir i arolygiadau safonau bwyd ac arolygiadau ar ffermydd mewn cyfarfod yn y dyfodol er mwyn gwneud yn siwr bod y gofynion statudol perthnasol yn cael eu diwallu.
- Cyfeiriwyd at y taliadau a'r ffioedd sy'n gysylltiedig â'r Canolfannau Lles. Nodwyd mai'r nod oedd cadw prisiau'n isel er mwyn denu defnyddwyr gwasanaethau ond bod gofyn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau. Trafododd y Pwyllgor y ddirprwyaeth sydd yn ei lle ar hyn o bryd sy'n galluogi'r gwasanaeth i gynnal cynigion hyrwyddo tymor byr/cyfnod penodedig a phleidleisiodd i argymhell i'r Cabinet bod hwn yn cael ei ymestyn i 2023/24.
- Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor, hefyd, ar i weithdy gael ei gynnal i'r holl Aelodau yn y dyfodol i roi diweddariad ar y cynnydd a'r cynlluniau diweddaraf sy'n rhan o'r Strategaeth Gydol Oed a Lles.

Argymhellion:

Cytunodd y Pwyllgor:

1. Ei fod wedi ystyried sefyllfa'r Gyllideb yn gyffredinol fel y'i nodir yn yr adroddiad ar y Gyllideb yn Atodiad A.
2. Ei fod wedi ystyried elfennau perthnasol y pwysau o ran costau ar y Gyllideb a oedd yn rhan o gylich gwaith y Pwyllgor Craffu hwn.
3. Ei fod wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion o ran arbedion i'r Gyllideb a oedd yn rhan o gylich gwaith y Pwyllgor Craffu hwn.
4. Ei fod wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion o ran Taliadau a Ffioedd a oedd yn rhan o gylich gwaith y Pwyllgor Craffu hwn, heblaw bod y Pwyllgor Craffu yn argymhell bod y Cabinet yn cytuno i ymestyn penderfyniad blaenorol y Cabinet ar 22 Chwefror 2022, am flwyddyn arall ar gyfer y cyfnod 2023/2024 fel a ganlyn:
 - ***Rhoi awdurdod dirprwyedig i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros y Canolfannau Hamdden a Lles, i amrywio Taliadau a Ffioedd y Canolfannau Lles ar gyfer 2023/2024, i gynnal cynigion hyrwyddo tymor byr/cyfnod penodedig.***
5. Pleidleisiodd mwyafrif Aelodau'r Pwyllgor o blaid cynnydd o 7.3% yn lefelau'r Dreth Gyngor. Felly, mae'r Pwyllgor yn argymhell cynnydd o 7.3% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2023/2024, sef opsiwn 3b) o'r argymhellion, fel a ganlyn:

3b) Cynnydd o 7.3% i'r Dreth Gyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb o £180.101m ar gyfer 23/24.

6. Ni chafwyd mwy o adborth gan y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft 2023/24.

4 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion

CYTUNWYD cadarnhau fel cofnod cywir Gofnodion y Cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd 23 Ionawr 2023.

Materion yn codi: Dywedodd y Cynghorydd Eryl Evans wrth y Pwyllgor ei bod, yng nghyfarfod 23 Ionawr 2023, yng nghyswllt yr eitem agenda ar Arolwg Ysgolion Chwaraeon Cymru, wedi gofyn ar i'r tîm sicrhau ei fod yn cydweithio gyda'r Adran Drafndiaeth er mwyn datblygu Teithio Llesol.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 13 Ebrill 2023

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____